# PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 14 Tachwedd, 2022.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd Dr. I.J. Johnson (Cadeirydd); Y Cynghorydd S.J. Haines (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr G.D.D. Carroll, E. Goodjohn, S.M. Hanks, J. Protheroe a N.C. Thomas.

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr A. Asbrey, I. Buckley a E. Williams.

## 442 CYHOEDDIAD –

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu’r datganiad canlynol: "Mae'r cyfarfod hwn yn cael ei ffrydio'n fyw a bydd yn cael ei archifo ar gyfer ei wylio yn y dyfodol".

## 443 YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorydd S.D. Perkes.

## 444 COFNODION –

PENDERFYNWYD – Y DYLID cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Gorffennaf 2022 fel cofnod cywir, yn amodol ar i'r ail frawddeg ar frig tudalen 208 gael ei dileu a'r canlynol gael ei gynnwys yn ei lle:

“Cyfeiriodd y Rheolwr Gweithredol at yr amserlen ar ôl yr etholiadau ar 5 Mai 2022, pan oedd angen darparu offer TGCh i’r garfan newydd o aelodau etholedig fel rhan o’r rhaglen sefydlu. Ni fu'n bosibl trosglwyddo rhifau ffôn o'r dyfeisiau presennol i'r dyfeisiau newydd gan mai dau ddiwrnod yn unig oedd gan y tîm TGCh, ar ôl derbyn yr wybodaeth am aelodau newydd ar 7 Mai, i adeiladu ac actifadu'r holl ddyfeisiau newydd a oedd i gael eu rhannu yn y sesiynau sefydlu, a oedd yn dechrau ar 9 Mai. O ganlyniad i'r amserlen dynn hon, ni fu’n ymarferol i actifadu cardiau SIM a sefydlu cyfrifon y defnyddwyr newydd yn Microsoft Office O365 yr oedd yn rhaid eu sefydlu cyn yr etholiadau, a dyna pam y rhoddwyd rhifau ffôn symudol newydd i’r garfan newydd o aelodau.”

## 445 DATGANIADAU BUDDIANT –

Yn dilyn cyngor a dderbyniwyd gan y Swyddog Monitro, datganodd yr aelodau canlynol fuddiant personol yn Eitem 4 ar yr agenda, sef yr ymgynghoriad ar Adroddiad Blynyddol Drafft 2023/24 Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth

Ariannol , gan nodi nad oedd hyn yn gyfystyr â buddiant rhagfarnus yng ngoleuni paragraff 19.3.3(b)(ii) o God Ymddygiad yr Aelodau:

Cynghorwyr G.D.D. Carroll, E. Goodjohn, S.J. Haines, S.M. Hanks, Dr. I.J Johnson, K.P. Mahoney, J. Protheroe a N.C. Thomas.

446 PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL: ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT 2023/24 YMGYNGHORIAD (PGD) –

Rhoddodd yr adroddiad wybodaeth i'r Aelodau am Adroddiad Blynyddol drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ar gyfer 2023/24. Yn unol â gofynion Adran 147 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, roedd yn ofynnol i Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol gyhoeddi Adroddiad Blynyddol, fyddai'n cael effaith ar gyfer y flwyddyn ariannol 2023/24. Roedd unrhyw sylwadau ar Adroddiad Blynyddol drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol i'w cyflwyno i Ysgrifenyddiaeth Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol erbyn 1 Rhagfyr, 2022, fan pellaf.

Byddai'r holl Benderfyniadau yn Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn berthnasol o ran Prif Gynghorau a Chynghorau Tref a Chymuned a lle bo hynny'n berthnasol, Awdurdodau Tân ac Achub a Pharciau Cenedlaethol. Cynigiodd Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol osod y cyflogau fel y manylir yn Atodiad A yr adroddiad er mwyn osgoi erydiad pellach mewn perthynas ag enillion cyfartalog. Gofynnwyd am sylwadau'r Pwyllgor o ran materion yn ymwneud â'r ymgynghoriad ar gwestiynau'r Adroddiad Drafft fel y nodir ym mharagraff 2.7 yr adroddiad, a oedd yn cynnwys ymatebion yn ymwneud â chwestiynau 1, 2, 3 a 4 yr awgrymwyd i'r Pwyllgor eu hystyried. Ceisiwyd sylwadau'r Pwyllgor hefyd mewn perthynas â chwestiwn 5.

Mynegwyd nifer o safbwyntiau gan Aelodau mewn perthynas â mabwysiadu'r ymatebion drafft i gwestiynau ymgynghori yr Adroddiad Blynyddol drafft fel y'u nodwyd yn yr adroddiad. Wedi ystyried nifer o ffactorau barn y mwyafrif oedd y dylai ymateb y Cyngor fod yn ymwybodol o'r argyfwng costau byw ac er nad oedd y Pwyllgor yn anghytuno â'r fethodoleg a ddefnyddiwyd gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol i gyfrifo tâl Aelodau, yng nghyd-destun yr heriau economaidd sy'n wynebu'r DU, cynigiwyd y dylai ymateb y Cyngor fod yn awgrymu i'r Panel eu bod yn ystyried rhewi cyflogau ar gyfer yr ariannol blwyddyn 2023/24.

Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau bod y lwfans sylfaenol wedi'i gyfrifo ar sail Cynghorwyr yn gwneud 3 diwrnod o waith wrth ymgymryd â'u gwahanol rolau etholedig. Gallai unrhyw Aelod o'r Cyngor hepgor y cyfan neu ran o'i hawl mewn unrhyw flwyddyn drwy hysbysu'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn ysgrifenedig.

Dywedodd y cynghorwyr Carroll a Haines, gan gydnabod bod y broses yn annibynnol, eu bod yn siomedig nad oedd Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol wedi rhoi mwy o sylw i'r argyfwng costau byw presennol sy'n wynebu'r cyhoedd. Fe wnaeth y Cynghorydd Goodjohn a'r Cynghorydd

Mahoney, wrth gytuno â'r sylwadau hyn, gynnig ac eilio Cynnig a gytunwyd gan y Pwyllgor ac a arweiniodd at Benderfyniad (2) isod.

Ar ôl ystyried yr adroddiad a'r drafodaeth gysylltiedig,

PENDERFYNWYD –

(1) Y DYLID nodi cynigion Adroddiad Blynyddol Drafft 2023/24 Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

(2) YNG ngoleuni'r argyfwng costau byw sy'n effeithio ar Gymru a'r DU yn ehangach, dylid atgoffa'r panel y gall ystyried rhewi cyflogau aelodau etholedig prif gynghorau am y flwyddyn 2023/24 (Penderfyniadau 1, 2 a 3).

(3) Y DYLID anfon ymatebion y pwyllgor i gwestiynau'r ymgynghoriad a nodir isod at y panel ar ran y cyngor:

Cwestiwn 1

*Mae'r panel wedi parhau i ddefnyddio'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol fel y meincnod ar gyfer pennu cyflog sylfaenol aelodau etholedig prif gynghorau. Cynigir cynnydd cymesur cyfatebol ar gyfer aelodau Parciau Cenedlaethol a'r Awdurdodau Tân ac Achub. Mae'r panel wedi parhau i gyfeirio at yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion a gyhoeddwyd ddiwethaf, sef yn 2021. A ydych yn cytuno y dylid cyfeirio at y data yn Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion 2021 wrth sôn am elfen y cyflog sylfaenol?*

Ymateb y cyngor

Ydym. Mae'r cyngor yn cefnogi'r cysylltiad parhaus rhwng taliadau cyflogau aelodau etholedig a'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion. Fodd bynnag, dylai Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ystyried rhewi cyflogau aelodau etholedig prif gynghorau ar gyfer 2023/24.

Cwestiwn 2

*Mae'r panel wedi gwneud newidiadau i daliadau costau a threuliau aelodau cynghorau cymuned a thref. Ydych chi'n cytuno ag ychwanegu elfen "defnyddiau traul"?*

Ymateb y cyngor

Dim barn. Mater i gynghorau tref/cymuned.

Cwestiwn 3

*Bydd y panel yn casglu tystiolaeth gan brif gynghorau i archwilio a yw llwyth gwaith aelodau etholedig wedi newid, ac ym mha fodd, er mwyn llywio penderfyniadau yn y dyfodol. A fyddech yn fodlon pe bai'r panel yn cynnwys yr adolygiad hwn yn ei gynllun gwaith ar gyfer y dyfodol ac yn casglu'r sylfaen dystiolaeth i gefnogi penderfyniadau?*

Ymateb y cyngor

Byddem. Mae'r cyngor yn cefnogi'r cynnig hwn. Dylai unrhyw adolygiad o sylfaen dystiolaeth penderfyniadau yn y dyfodol sicrhau bod lefel sylfaenol y taliad yn gyfiawn, yn briodol ac yn rhesymol.

Cwestiwn 4

*Rydym wedi lleihau maint yr adroddiad yn sylweddol eleni er mwyn canolbwyntio ar y penderfyniadau allweddol a wnaed, ac rydym yn bwriadu gwneud mwy o ddefnydd o'r wefan er mwyn darparu arweiniad hawdd ei ddefnyddio i ddefnyddwyr. Mae'r dull hwn hefyd yn cyd-fynd â'n hymdrechion i barchu'r heriau sy'n ein hwynebu wrth i ni amddiffyn ein planed.*
*Sut hoffech chi gael mynediad at wybodaeth ac arweiniad gan y panel? (dewiswch bob un sy'n berthnasol)*

| | | | |
|---|---|---|---|
| *Adroddiad cryno gyda dolenni i ganllawiau manwl* | | *Y cyfryngau cymdeithasol* | |
| *Nodiadau canllaw hawdd eu defnyddio* | | *Digwyddiadau gwybodaeth* | |
| *Cwestiynau cyffredin* | | *Arall* | |
| *Gwefan* | | - | - |

Ymateb y cyngor:

Mae'r cyngor yn croesawu'r holl opsiynau uchod. Fodd bynnag, dylid cynnwys y defnydd o e-byst hefyd fel dull priodol o gyfathrebu. Dylid rhoi ystyriaeth bellach hefyd i ddefnyddio Saesneg clir i wneud adroddiadau yn fwy hygyrch i'r cyhoedd / y gymuned ehangach yn y dyfodol.

Cwestiwn 5

*Mae'r panel yn bwriadu cynnal cyfres o ymgysylltiadau â'r holl randdeiliaid perthnasol dros y flwyddyn nesaf fel rhan o'r gwaith o ddatblygu, blaengynllunio ac adeiladu ei strategaeth dystiolaeth ac ymchwil.*

*A oes gennych unrhyw sylwadau a fyddai'n helpu'r panel i gynllunio'r ymgysylltiad hwn?*

*Er enghraifft, ffafriaeth dros bolau piniwn ar-lein, cynnal digwyddiadau ymgysylltu, yn rhithwir neu wyneb yn wyneb, pa grwpiau ddylai gymryd rhan, sut rydym yn ymgysylltu â darpar ymgeiswyr ac ati.*

Ymateb y cyngor:

Gofynnir i Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ystyried defnyddio ystod eang o ddulliau i ymgysylltu â’r holl randdeiliaid perthnasol, gan gynnwys dulliau wyneb yn wyneb a digidol, yn ddibynnol ar lefel yr ymgysylltiad y maent yn ei cheisio ar yr adeg honno.

(4) GOFYNNIR hefyd i Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ailystyried diwygio'r fformat newydd i gynnwys rhestr o'r holl benderfyniadau o fewn un ddogfen, er mwyn sicrhau eglurder a'i gwneud yn haws i gyferio atynt.

<u>Rhesymau dros benderfyniadau</u>

(1) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a’r trafodaethau yn y cyfarfod.

(2-4) Darparu ymateb i’r ymgynghoriad erbyn 1 Rhagfyr 2022.

447 RHAGLEN SEFYDLU A DATBLYGU AELODAU 2022 – DIWEDDARIAD (PGD) –

Roedd pob un o'r 66 Aelod Cyfetholedig wedi cwblhau eu sefydlu trwy fynychu naill ai Digwyddiad Sefydlu neu apwyntiad 1:1 gyda Swyddog Gwasanaethau Democrataidd erbyn 6 Mehefin, 2022 (20 diwrnod gwaith ers cychwyn y tymor Trefol).

Ar hyn o bryd roedd Rhaglen Sefydlu a Datblygu Aelodau 2022 ar gyfer Aelodau Etholedig a Chyfetholedig yng Ngham 3. 90% oedd y ganran bresenoldeb gyffredinol hyd yn hyn.

Roedd gan Arweinwyr Grwpiau Gwleidyddol ddyletswyddau mewn perthynas â safonau ymddygiad o dan Adran 62 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (“Y Ddeddf”). Roedd y Ddeddf yn nodi bod yn rhaid i Arweinydd Grŵp Gwleidyddol rhoi camau rhesymol ar waith i hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel gan aelodau'r Grŵp a rhaid iddynt gydweithredu â Phwyllgor Safonau'r Cyngor (unrhyw is-bwyllgor o'r Pwyllgor) wrth arfer swyddogaethau'r Pwyllgor Safonau.

Ym mis Ionawr 2023, byddai'r Rhaglen yn symud i Gam 4. Ar hynny o bryd, byddai Aelodau Etholedig yn cael eu gwahodd i ymgymryd â Dadansoddiad Anghenion Dysgu (DAD) i benderfynu ar anghenion hyfforddiant unigol.

Gofynnwyd am gymeradwyaeth i’r Hunan-Asesiad DAD drafft oedd ynghlwm yn Atodiad B yr adroddiad ac yn amodol ar gymeradwyaeth y Pwyllgor i gynnwys y DAD, y bwriad oedd y byddai hyn yn cael ei ddosbarthu i'r holl Aelodau i'w gwblhau.

Byddai'r DAD hefyd ar gael ar MemberNet i ganiatáu iddo gael ei gwblhau'n electronig os dymunir.

Byddai canfyddiadau yr Hunan-Asesiad DAD yn cael eu defnyddio i lywio gofynion datblygu Aelodau yn barhaus a byddai'n ategu Adolygiadau Datblygu Personol (ADPau) a fyddai'n cael eu cynnig i Aelodau yn ystod mis Mai / Mehefin 2023.

Roedd rhai aelodau o'r farn bod y Rhaglen Sefydlu wedi bod yn rhy ddwys a hynny dros gyfnod byr. Gwnaed nifer o sylwadau anecdotaidd mewn perthynas â pherthnasedd, hyd y sesiynau a lefel yr ymgysylltu yn ystod rhai sesiynau. Roedd y Pennaeth Gwasanaeth yn cydnabod mai bwriad y Rhaglen oedd ymdrin â nifer o feysydd pwnc, ac nad oedd modd osgoi hyn. Bwriad y Rhaglen oedd sicrhau bod Aelodau'n cael eu sefydlu'n briodol i ymgymryd â'u swyddi ar Bwyllgorau ac ati. Roedd y Cyngor wedi rhoi adnoddau sylweddol i'r Rhaglen Sefydlu, a chyn hynny darparwyd gwybodaeth ym mhob pecyn ymgeiswyr yn manylu ar ddyddiadau ac amseroedd sesiynau sefydlu ar ôl etholiadau. Roedd y Cyngor hefyd wedi cynnal ymgyrch "Dod yn Gynghorydd" ac wedi sefydlu digwyddiadau agored lle gallai darpar ymgeiswyr gofrestru i fynychu; diben y sesiynau hyn oedd rhoi gwybodaeth i ymgeiswyr gan gynnwys materion yn ymwneud ag Ymsefydlu Aelodau cyn gwneud penderfyniad i sefyll mewn etholiad. Roedd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd wedi argymell y pynciau dysgu hynny i'r Cabinet y dylid eu hystyried yn hyfforddiant hanfodol (gorfodol) gyda hyfforddiant arall yn ddewisol. Wedi hynny roedd y Cabinet wedi cymeradwyo argymhellion y Pwyllgor. Roedd Strategaeth Datblygu Aelodau'r Cyngor yn adlewyrchu arferion gorau ledled Cymru.

PENDERFYNWYD –

(1) Y DYLID nodi'r cynnydd o ran darparu'r rhaglen sefydlu i aelodau ar gyfer 2022.

(2) Y DYLID gofyn i arweinwyr grwpiau sicrhau bod holl aelodau'r grŵp wedi cwblhau'r holl destunau datblygu aelodau hanfodol cyn 31 Rhagfyr 2022.

(3) Y DYLID cymeradwyo hunanasesiad drafft y dadansoddiad o anghenion dysgu, sydd ynghlwm yn Atodiad B yr adroddiad, a'i yrru dros e-bost at yr holl aelodau, yn ogystal â'i lanlwytho i MemberNet ym mis Ionawr 2023.

(4) Y DYLID cyflwyno adroddiad pellach ar ganlyniadau ymarfer hunanasesu'r dadansoddiad o anghenion dysgu ym mis Ebrill 2023.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(2) Gan roi sylw i ofynion adran 62 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, sy'n gosod dyletswydd ar arweinwyr grwpiau gwleidyddol i gymryd camau rhesymol i hybu a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan aelodau eu grŵp.

(3) Gwahoddir aelodau etholedig i gynnal dadansoddiad o anghenion dysgu ym mis Ionawr 2023 i bennu anghenion hyfforddi unigol a llywio’r rhaglen ddatblygu ar gyfer gweddill y tymor gwleidyddol.

(4) Er mwyn i'r pwyllgor gael gwybod am ganfyddiadau ymarfer hunanasesu’r dadansoddiad o anghenion dysgu.

448 ADRAN 6 O FESUR LLYWODRAETH LEOL (CYMRU) 2011 – AMSERIAD CYFARFODYDD CYNGOR (PGD) –

Yn flaenorol, roedd Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Canllawiau Statudol o dan Adran 6 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 ("y Mesur"). Yn rhinwedd adran 6 (2) y Mesur, rhaid i Awdurdodau Lleol roi sylw i'r Canllawiau hyn mewn perthynas ag amseroedd cynnal cyfarfodydd Awdurdodau Lleol, a’r cyfnod rhwng y cyfarfodydd hynny. Roedd y Canllawiau hefyd yn dweud bod amser cynnal cyfarfodydd Cyngor o gryn arwyddocâd gan y gallai effeithio ar y graddau y gallai unigolion ystyried sefyll mewn etholiad.

Roedd y Canllawiau Statudol a gyhoeddwyd mewn perthynas â'r Mesur, yn cynnwys canllawiau ar yr Adran hon ac atgynhyrchwyd y Canllawiau yn Atodiad 1 i'r adroddiad.

Roedd Canllawiau Statudol Diwygiedig mewn perthynas â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiad (Cymru) 2021 wedi bod yn destun ymgynghori yn y gorffennol. Roedd disgwyl o hyd am y Canllawiau terfynol, ond roedden nhw wedi parhau’n ddigyfnewid i bob pwrpas.

Cafodd Arolwg drafft awgrymedig i'w ystyried a'i gytuno gan y Pwyllgor ei atodi yn Atodiad 2 a rhagwelwyd y byddai'r canlyniadau'n cael eu hadrodd wrth y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar 13 Chwefror 2023 a Chyfarfod y Cyngor ar 6 Mawrth, 2023, yn dibynnu ar ganlyniad yr Arolwg.

Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â threfniadau presennol cyfarfodydd y Cyngor gyda rhai Aelodau yn mynegi barn mai cyfarfodydd Hybrid fyddai eu dewis yn ogystal â mwy o gyfarfodydd Mewn Person. Awgrymwyd bod cwestiwn ychwanegol yn cael ei gynnwys o fewn yr Arolwg ar y mater hwn a chynnwys gwybodaeth ynghylch cyfarfodydd Hybrid ac O Bell a gofynion deddfwriaethol cysylltiedig. Atgoffodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd y Pwyllgor fod Polisi Cyfarfodydd Aml-Leoliad presennol y Cyngor (CAL) yn cynnwys gwybodaeth mewn perthynas â pha gyfarfodydd o'r Cyngor oedd wedi'u dynodi'n gyfarfodydd Hybrid a pha gyfarfodydd fyddai'n cael eu cynnal o bell. Y bwriad oedd adolygu'r Polisi ymhen 12 mis o’r adeg pan gafodd y Polisi ei gymeradwyo (Ebrill 2022). Nododd y Cadeirydd mai ei ddewis oedd gweld holl gyfarfodydd y Pwyllgorau Craffu yn cael eu cynnal ar sail Hybrid yn hytrach nag o bell fel oedd yn digwydd nawr.

PENDERFYNWYD – Y DYLID cymeradwyo'r arolwg drafft a awgrymwyd sydd ynghlwm wrth yr adroddiad, yn amodol ar gynnwys cwestiwn ychwanegol yn ymwneud â pholisi cyfarfodydd aml-leoliad y cyngor a'r hyn a ffefrir gan aelodau

mewn perthynas â chynnal cyfarfodydd hybrid (cyfuniad o gyfarfodydd o bell ac wyneb yn wyneb), cyfarfodydd o bell yn unig a chyfarfodydd wyneb yn wyneb.

<u>Rheswm dros y penderfyniad</u>

Er mwyn cydymffurfio â gofynion adran 6 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.